BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

Canllaw i feithrin cyswllt â sefydliadau a'u cydnabod

1. Er mwyn ichi fedru gweithio â sefydliadau lleol drwy grŵp llywio eich Cymuned sy'n Deall Dementia, mae'n rhaid bod eich achrediad a'ch asesiad blynyddol wedi'u diweddaru.

2. Gall y grŵp llywio weithio â sefydliadau lleol (siopau, grwpiau ffydd, llyfrgelloedd ac ati) drwy ymweld â hwy a darparu gwybodaeth ynglŷn ag ymwybyddiaeth o ddementia ynghyd â manylion y grŵp llywio.

3. Darllenwch ganllawiau Ymgyrch y Stryd Fawr i gael syniadau am sut i gyflwyno'ch hunain i sefydliadau a hybu ymwybyddiaeth o'r gwaith y mae'r grŵp llywio'n ei wneud.

4. Cefnogi sefydliadau â diddordeb wrth iddynt ddechrau gwneud newidiadau i greu amgylchedd lle deellir dementia. Defnyddio 'Cofnod Sefydliadau'r Grŵp Llywio' i gadw cofnod o'r holl sefydliadau hynny sy'n cymryd rhan, y camau gweithredu y maent wedi'u pennu a dyddiadau eu hadolygiadau blynyddol.

5. Bydd yn ofynnol i bob sefydliad gyflwyno addunedau bob blwyddyn er mwyn ymrwymo o'r newydd i wneud eu sefydliad yn un sy'n deall dementia.

6. Unwaith y mae sefydliadau wedi dechrau gweithredu, gofynnwch iddynt lenwi Ffurflen Adduned gan nodi'r tri o gamau gweithredu y maent wedi'u pennu, a'i dychwelyd i banel adolygu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

7. Bydd y panel adolygu'n rhoi tystysgrif i gydnabod y sefydliad, sticeri i'w rhoi yn y ffenestr ac amodau a thelerau ar gyfer eu defnyddio.

8. Mae'n rhaid i'r grŵp llywio ysgwyddo'r cyfrifoldeb am fonitro a chynorthwyo'r sefydliad wrth gyflawni'r camau gweithredu'n unol â'r addunedau, a chadw cofnod o'r camau a gymerwyd i hwyluso'r adolygiad blynyddol.

Addaswyd o ddogfen Cymdeithas Alzheimer's